

Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ystyried anghenion a gofynion y gymuned y bydd ei bolisiâu a'i ddulliau gweithredu'n effeithio arni. Lluniwyd y rhestr wirio hon er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol yn erbyn unrhyw grwpiau perthnasol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau Cyngor yn unol â deddfwriaeth ac ymarfer da.

Dull trefnus o archwilio effaith polisi gweithredol neu arfaethedig ar wahanol grwpiau yw asesu effaith. Gofynnir i swyddogion nodi'r canlyniadau neu'r effeithiau y gellir eu disgwyl yn sgîl cyflwyno polisi neu ddull penodol o weithredu.

Enghreifftiau o grwpiau o bobl a allai fod o dan anfantais petai eu hanghenion penodol yn cael eu diystyru yw menywod/rhieni/gofalwyr, pobl o wahanol leiafrifoedd ethnig, pobl ag anabledau/namau corfforol neu feddyliol a siaradwyr Cymraeg.

Sut dylid asesu effaith?

1. Nodi amcanion eich polisi a sut y bydd yn gweithio.
2. Archwilio'r data a'r gwaith ymchwil sydd ar gael.
3. Asesu'r effaith debygol ar gydraddoldeb.
4. Ymgynghori â phobl y mae eich polisi'n debyg o effeithio arnynt.
5. Gwneud trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu'ch polisi a'i effaith.
6. Cyhoeddi canlyniadau'r asesiad.

Mae dyletswydd ar y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Rheolwr Gweithredol sy'n gyfrifol am bob polisi i sicrhau bod y polisi dan sylw'n cael ei asesu yn y modd yma.

Llenwch y ffurflen ar eich cyfrifiadur a'i hanfon yn ôl i'r Adran Gydraddoldeb:

LJBrown@valeofglamorgan.gov.uk

Os hoffech ein holi ragor y mae croeso i chi ffonio 01446 709362:

Teitl y polisi/ymarfer:Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**Pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisi/ymarfer?**

Enw:	Teitl y Swydd:Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol
Cyfarwyddiaeth:Adran y Prif Weithredwr	Is-adran Cydraddoldeb
Dyddiad Asesu:24 Ionawr 2012	

1. Amcanion**Beth yw amcanion y polisi/ymarfer sy'n cael ei ddatblygu neu'i adolygu?**

Datblygwyd y cynllun er mwyn helpu'r Cyngor i ateb ei ofynion statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chyflawni'r dyletswyddau sector cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hynny. Mae'n ymdrin â holl feysydd cydraddoldeb sef – rhyw, hil, anabledd, oedran, rhywioldeb, ailgyfeirio rhyw a chrefydd neu gredo. Mae'n disodli'r cynlluniau cydraddoldeb hil, rhyw ac anabledd presennol ac yn cydreddeg â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Ein nod yw trin pob aelod o staff a phob trigolyn yn deg yn ôl ei anghenion. Mae'r cynllun gweithredu'n hanfodol ar gyfer cyflawni hyn i gyd, a byddwn yn ei fonitro drwy gydol oes y cynllun ac yn cyflwyno adroddiadau blynyddol arno.

2. Data cefndirol:

Pwy fydd yn elwa ar y polisi/ymarfer hwn?	Ticiwch ✓
Holl drigolion Bro Morgannwg	✓
Adrannau mewnol (nodwch yr adrannau): Pob un	✓
Cwsmeriaid/trigolion mewn ardal benodol	
Cwsmeriaid penodol (o ran oedran, rhyw ac ati) Nodwch: Grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	✓
Grŵp arall Rhowch fanylion: Bydd gwelliannau sy'n cael eu gwneud ar gyfer grwpiau a ddiogelir yn aml o les i'r boblogaeth yn gyffredinol.	

Pa waith ymchwil neu wybodaeth sylfaenol sydd gennych am y ffordd y bydd gwahanol grwpiau o bobl yn defnyddio'ch gwasanaeth?

Buom yn ymgynghori ynglŷn â'n cynlluniau cydraddoldeb rhyw, hil ac anabledd ac yn defnyddio'r hyn a ddysgasom i gyfoethogi'r cynllun newydd hwn. Rydym wedi cyfeirio at ddata mewnol am staff a defnyddio'r wybodaeth yng nghyfrifiad 2001 ac amcangyfrifon canol tymor i'n helpu i ddeall y boblogaeth leol. Rydym hefyd wedi cyfeirio at waith ymchwil gan grwpiau cynrychioliadol.

3. Rhyw

A fydd y polisi/ymarfer hwn yn cael **effaith andwyol** uniongyrchol/anuniongyrchol ar wahanol rywiau?

Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
Menywod		✓
Dynion		✓

A fydd y polisi/ymarfer hwn yn cael **effaith adeiladol** uniongyrchol/anuniongyrchol ar wahanol rywiau?

Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
Menywod	✓	
Dynion	✓	

Rhowch fanylion am yr effaith andwyol
Does dim i'w chanfod.
Rhowch fanylion am yr effaith adeiladol.
Pwrpas y cynllun hwn yw hybu cydraddoldeb a chael gwared ar anffafiaeth yn y Fro a'i nod gan hynny yw cael effaith adeiladol. Nodwyd blaenoriaethau a datblygwyd cynllun gweithredu sy'n cynnwys camau a grëwyd yn unswydd er mwyn hybu cydraddoldeb rhywiol.
Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn lleddfu ar yr effaith andwyol?
Amherthnasol.
Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn sicrhau effaith fwy adeiladol?
Mae'r camau wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu.
Pa dystiolaeth gefnogol sydd gennych?
Roedd argymhellion arolwg ar y cynllun cydraddoldeb rhywiol o gymorth i ni benderfynu ar flaenoriaethau'r cynllun a'r camau gweithredu cysylltiedig. Seiliwyd yr argymhellion ar ddata a gwybodaeth y Cyngor ac ymgynghoriadau mewnol ac allanol yn ogystal ag arbenigedd sefydliad cynrychioliadol.

4. Hil

Gallai pobl o wahanol gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor mewn ffyrdd gwahanol (mae'n bosibl, er enghraifft, y byddai menywod rhai cymunedau lleiafrifol yn defnyddio pwll nofio'r Cyngor yn amlach petai sesiynau nofio ar gael i fenywod a dynion ar wahân).

A fydd y polisi/ymarfer yn cael **effaith andwyol** ar y grwpiau canlynol?

Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
Pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig y Fro		✓
Ymfudwyr sy'n chwilio am well safon byw		✓
Ceiswyr noddfa a ffoaduriaid		✓

A fydd y polisi/ymarfer yn cael **effaith adeiladol** ar y grwpiau canlynol?

Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
Pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig y Fro	✓	
Mewnfudwyr sy'n chwilio am well safon byw	✓	
Ceiswyr noddfa a ffoaduriaid	✓	

Rhowch fanylion am yr effaith andwyol.
Does dim i'w chanfod.
Rhowch fanylion am yr effaith adeiladol.
Pwrpas y cynllun hwn yw hybu cydraddoldeb a chael gwared ar anffafiaeth yn y Fro a'i nod gan hynny yw cael effaith adeiladol. Nodwyd blaenoriaethau a datblygwyd cynllun gweithredu sy'n cynnwys camau a grëwyd yn unswydd er mwyn hybu cydraddoldeb hiliol.

Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn lleddfu ar yr effaith andwyol?
Amherthnasol.
Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn sicrhau effaith fwy adeiladol?
Mae'r camau wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu.
Pa dystiolaeth gefnogol sydd gennych?
Fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, rydym wedi cynnal nifer o ymgynghoriadau er mwyn dod i wybod mwy am anghenion grwpiau o bobl o wahanol hil, a bu hyn o gymorth i ni lunio'r cynllun a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

5. Anabledd

A fydd y polisi/ymarfer yn cael **effaith andwyol** ar bobl ag anableddau gwahanol?

Anabledd Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
Nam ar y golwg		✓
Nam ar y clyw		✓
Anabledd corfforol		✓
Anabledd dysgu		✓
Problem iechyd meddwl		✓
Anabledd arall:		

A fydd y polisi/ymarfer yn cael **effaith adeiladol** ar bobl ag anableddau e.e. a fydd gwasanaethau'n haws eu defnyddio?

Anabledd Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
Nam ar y golwg	✓	
Nam ar y clyw	✓	
Anabledd corfforol	✓	
Anabledd dysgu	✓	
Problem iechyd meddwl	✓	
Anabledd arall:		

Rhowch fanylion am yr effaith andwyol.
Does dim i'w chanfod.
Rhowch fanylion am yr effaith adeiladol.
Pwrpas y cynllun hwn yw hybu cydraddoldeb a chael gwared ar anffafiaeth yn y Fro a'i nod gan hynny yw cael effaith adeiladol. Nodwyd blaenoriaethau a datblygwyd cynllun gweithredu sy'n cynnwys camau a grëwyd yn unswydd er mwyn hybu cydraddoldeb i bobl anabl.
Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn lleddfu ar yr effaith andwyol?
Amherthnasol.
Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn sicrhau effaith fwy adeiladol?
Mae'r camau wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu.
Pa dystiolaeth gefnogol sydd gennych?
Fel rhan o'r arolwg ar y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, aethom ati i gynnal ymgynghoriad wedi'i hwyluso gan grŵp cynrychioliadol er mwyn dysgu am anghenion pobl anabl, ac yr oedd hynny o gymorth i ni lunio'r cynllun a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

6. Yr Iaith Gymraeg

A fydd y polisi/ymarfer yn cael **effaith andwyol** ar yr iaith Gymraeg?

Ticiwch ✓ <	Bydd	Na fydd
		✓

A fydd y polisi/ymarfer yn cael **effaith adeiladol** ar y Gymraeg yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor? Er enghraifft, o safbwynt cyfieithu dogfennau, staff Cymraeg eu hiaith, y system ffôn ddwyieithog awtomataidd, ffurflenni dwyieithog.

Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
		✓

Rhowch fanylion am yr effaith andwyol.
Effaith niwtral.
Rhowch fanylion am yr effaith adeiladol.
Effaith niwtral.
Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn lleddfu ar yr effaith andwyol?
Ni ragwelir unrhyw effaith andwyol.
Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn sicrhau effaith fwy adeiladol?
Byddwn yn gweithredu o dan ein Cynllun Iaith.
Pa dystiolaeth gefnogol sydd gennych?
Amherthnasol.

7. Oedran }

A fydd y polisi/ymarfer yn cael **effaith andwyol** ar bobl iau/hŷn?

Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
O dan 25 oed		✓
O dan 50 oed		✓

A fydd y polisi/ymarfer yn cael **effaith adeiladol** ar bobl iau/hŷn?

Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
O dan 25 oed	✓	
O dan 50 oed	✓	

Rhowch fanylion am yr effaith andwyol.
Does dim i'w chanfod.
Rhowch fanylion am yr effaith adeiladol.
Pwrpas y cynllun hwn yw hybu cydraddoldeb a chael gwared ar anffafiaeth yn y Fro, a'i nod gan hynny yw cael effaith adeiladol. Nodwyd blaenoriaethau a datblygwyd cynllun gweithredu sy'n cynnwys camau a grëwyd yn unswydd er mwyn hybu cydraddoldeb i bobl o bob oed.
Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn lleddfu ar yr effaith andwyol?
Amherthnasol.
Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn sicrhau effaith fwy adeiladol?
Mae'r camau wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu.
Pa dystiolaeth gefnogol sydd gennych?
Rydym wedi defnyddio amcanion strategol dogfen 'Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2008-2013' o eiddo'r Cynulliad ac ymgynghori â Fforwm Pobl Hŷn Cyngor Bro Morgannwg. Buom yn cyfeirio at saith amcan craidd y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc a seiliwyd ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Buom yn ymgynghori â gweithwyr ieuencid y Cyngor a'r Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb.

8. Crefydd a Chredo

A fydd y polisi/ymarfer yn cael **effaith andwyol** ar bobl sy'n arddel gwahanol grefyddau neu gredoau?<

Crefydd/credo Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
		✓

A fydd y polisi/ymarfer yn cael **effaith adeiladol** ar bobl sy'n arddel gwahanol grefyddau neu gredoau?

Crefydd/credo Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
	✓	

Rhowch fanylion am yr effaith andwyol.
Does dim i'w chanfod.
Rhowch fanylion am yr effaith adeiladol.
Pwrpas y cynllun hwn yw hybu cydraddoldeb a chael gwared ar anffafiaeth yn y Fro, a'i nod gan hynny yw cael effaith adeiladol. Nodwyd blaenoriaethau a datblygwyd cynllun gweithredu sy'n cynnwys camau a grëwyd yn unswydd er mwyn hybu cydraddoldeb i bobl o bob crefydd a chredo.
Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn lleddfu ar yr effaith andwyol?
Amherthnasol.
Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn sicrhau effaith fwy adeiladol?
Mae'r camau wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu.
Pa dystiolaeth gefnogol sydd gennych?
Rydym yn cydnabod bod angen mwy o wybodaeth arnom am anghenion y maes hwn. O dan ein cynllun gweithredu y mae'n rhaid i ni ymgynghori er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau sy'n berthnasol i grefyddau a chredoau trigolion Bro Morgannwg .

9. Rhywioldeb

A fydd y polisi'n cael **effaith andwyol** ar ddynion hoyw/lesbiaid/pobl ddeurywiol?

Rhywioldeb Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
Dynion hoyw/lesbiaid/pobl ddeurywiol		✓

A fydd y polisi'n cael **effaith adeiladol** ar ddynion hoyw/lesbiaid/pobl ddeurywiol?

Rhywioldeb Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
Dynion hoyw/lesbiaid/pobl ddeurywiol	✓	

Rhowch fanylion am yr effaith andwyol.
Does dim i'w chanfod.
Rhowch fanylion am yr effaith adeiladol.

Pwrpas y cynllun hwn yw hybu cydraddoldeb a chael gwared ar anffafiaeth yn y Fro, a'i nod gan hynny yw cael effaith adeiladol. Nodwyd blaenoriaethau a datblygwyd cynllun gweithredu sy'n cynnwys camau a grëwyd yn unswydd er mwyn hybu cydraddoldeb i ddynion hoyw, lesbiaid a phobl ddeurywiol.

Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn lleddfu ar yr effaith andwyol?

Amherthnasol.

Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn sicrhau effaith fwy adeiladol?

Mae'r camau wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu.

Pa dystiolaeth gefnogol sydd gennych?

Buom yn cyfeirio at waith ymchwil cenedlaethol gan Stonewall ac yn ymgynghori â'n Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb.

10. Ailgyfeirio Rhyw

A fydd y polisi'n cael **effaith andwyol** ar bobl drawsrywiol?

Trawsrywioldeb Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
Dynion a menywod trawsrywiol		✓

A fydd y polisi'n cael **effaith adeiladol** ar bobl drawsrywiol?

Trawsrywioldeb Ticiwch ✓	Bydd	Na fydd
Dynion a menywod trawsrywiol	✓	

Rhowch fanylion am yr effaith andwyol.

Does dim i'w chanfod.

Rhowch fanylion am yr effaith adeiladol.

Pwrpas y cynllun hwn yw hybu cydraddoldeb a chael gwared ar anffafiaeth yn y Fro, a'i nod gan hynny yw cael effaith adeiladol. Nodwyd blaenoriaethau a datblygwyd cynllun gweithredu sy'n cynnwys camau a grëwyd yn unswydd er mwyn hybu cydraddoldeb i ddynion hoyw, lesbiaid a phobl ddeurywiol.

Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn lleddfu ar yr effaith andwyol?

Amherthnasol.

Pa gamau y gallech eu cymryd er mwyn sicrhau effaith fwy adeiladol?

Mae'r camau wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu.

Pa dystiolaeth gefnogol sydd gennych?

Rydym yn cydnabod ei bod yn rhaid i ni ymchwilio i'r maes ac ymgynghori â grwpiau cynrychioliadol o bobl a budd-ddeiliaid fel rhan o'r gwaith hwnnw. Bydd hyn o gymorth i ni benderfynu beth yn union sydd angen ei wneud er mwyn darparu'n well ar gyfer y maes hwn.

11. Ymgynghori

Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud ar gyfer ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

- Dynion/menywod/rhieni/gofalwyr;
- y gymuned ddu a lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys ceiswyr noddfa, ffoaduriaid, mewnfudwyr sy'n chwilio am well safon byw);
- pobl ag anableddau / namau (er enghraifft, namau ar y synhwyrau, anableddau corfforol ac addysgol a chyflyrau meddygol);
- y gymuned Gymraeg ei hiaith;
- grwpiau bregus eraill nad yw'n hawdd cysylltu â hwy (e.e. pobl ifanc/hŷn, teuluoedd ar incwm isel).

Gweithgareddau ymgynghori (nodwch y dull o ymgynghori - e.e. grŵp ffocws, arolwg, cyfarfod cyhoeddus, panel dinasyddion).
Grwpiau ffocws, y Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb, cyfarfodydd cyhoeddus, gweithwyr ieuenctid, cyngor oddi wrth sefydliadau cynrychioliadol.
Â phwy yr ymgynghorwyd?
Hil – ymgynghorwyd â grwpiau o bobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig lleol ynglŷn â materion amrywiol, a bu Cydraddoldeb Hiliol yn Gyntaf yn hwyluso'r broses. Rhyw – ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid mewnol ac allanol mewn grwpiau ffocws a oedd yn cael eu hwyluso gan Chwarae Teg. Buom yn trafod materion perthnasol i drais yn y cartref ag Atal y Fro. Anabled – daeth pobl anabl ynghyd mewn grwpiau ffocws a oedd yn cael eu hwyluso gan Goalisiwn Pobl Anabl Caerdydd a'r Fro, a chynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus. Arolwg ar staff anabl. Rhywioldeb – cynhaliwyd trafodaethau â Stonwall a Chanolfan Ragoriaeth LHDT. Ailgyfeirio rhyw – cynhaliwyd trafodaethau â Chanolfan Ragoriaeth LHDT. Oedran – cynhaliwyd trafodaethau â Fforwm Strategaeth Pobl Hŷn Cyngor Bro Morgannwg a Gweithwyr Ieuenctid Cyngor Bro Morgannwg. Crefydd a chredo – cynhaliwyd trafodaethau â Chytŷn a gofynnwyd i Gydraddoldeb Hiliol yn Gyntaf helpu gyda gwaith ymchwil drwy ymgynghori. Cyffredinol – y Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb.
Sut cafodd canlyniadau'r ymgynghori eu gweithredu?
Defnyddiwyd yr ymateb a gawsom i ddatblygu'r cynllun a'r cynllun gweithredu. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ynglŷn â'r cynllun a'r cynllun gweithredu drafft cyn penderfynu ar fersiynau terfynol.

12. Monitro

Sut byddwch yn monitro effaith y polisi hwn ar ddefnyddwyr gwasanaethau?
Byddwn yn monitro'r cynllun gweithredu'n rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd o safbwynt gweithredu'r cynllun.
Pa ddata monitro byddwch yn ei gasglu (nifer y bobl anabl, cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, menywod/dynion, siaradwyr Cymraeg, ac ati)?
Byddwn yn defnyddio cyfrifiad 2011 (trigolion), yn casglu gwybodaeth am staff ac yn cyflwyno adroddiadau ar y wybodaeth honno.

13. Cyhoeddi'r polisi

Sut byddwch yn cyhoeddi a hysbysebu'r polisi er mwyn sicrhau y caiff pawb fanteisio ar y wybodaeth hon (codi ymwybyddiaeth ymhlith grwpiau lleiafrifol, cyhoeddi gwybodaeth mewn fformatiau sy'n hawdd eu defnyddio ac ati)?

Byddwn yn cyhoeddi'r cynllun a'r cynllun gweithredu ar Ryngrwyd a Gwefan Cyngor Bro Morgannwg. Byddwn yn ei ddsbarthu i fudd-ddeiliaid a'r rhai a fu'n cymryd rhan mewn ymgynghoriadau.

14. Gweithredu ymhellach

Dylai unrhyw argymhellion ynglŷn â'r camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r asesiad effaith (a restrwyd yn yr adrannau uchod) gael eu cynnwys yn eich Cynllun Tîm neu'ch Cynllun Gwasanaethau Adrannol.

15. Asesiadau Effaith sydd wedi'u cwblhau:

Anfonwch gopi o'r ffurflen hon mewn neges e-bost at y Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol. Bydd ffurflenni sydd wedi'u cwblhau'n cael eu cyhoeddi ar Wefan y Cyngor.

16. Awdurdodi

Dylai'r ffurflen hon gael ei chymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol neu Reolwr Gweithredol yr adran).

Cymeradwyd gan (enw):	Dyddiad Ionawr 2011
Teitl: Rheolwr Gweithredol Polisi Corfforaethol a Chyfathrebu	